*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 26(2)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L   C Y M R U   D R A F F T

---

# 2026 Rhif

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Parhau) 2026

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 ("Deddf 2018") yn gwneud darpariaeth ynghylch yr isafbris y mae alcohol i'w gyflenwi amdano gan fanwerthwyr alcohol o fangreoedd cymhwysol yng Nghymru i berson yng Nghymru, ac mae'n sefydlu cyfundrefn orfodi a arweinir gan yr awdurdod lleol.

Mae adran 22(1) o Ddeddf 2018 yn darparu bod darpariaethau'r isafbris yn dod i ben 6 mlynedd ar ôl i adran 2 o Ddeddf 2018 ddod i rym oni bai y gwneir Rheoliadau o dan adran 22(2) o'r Ddeddf honno i barhau effaith y darpariaethau hynny. Daeth adran 2 o Ddeddf 2018 i rym ar 2 Mawrth 2020.

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 22(2) o Ddeddf 2018 ac maent yn parhau effaith darpariaethau'r isafbris.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn yng Nghymru. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 26(2)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L   C Y M R U   D R A F F T

---

# 2026 Rhif

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Parhau) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *9 Chwefror 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 22(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**2**).

Yn unol ag adran 26(2)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru(**3**) ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Parhau) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Chwefror 2026.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

---

(**1**) 2018 dccc 5.
(**2**) EUR 178/2002, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/641; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**3**) Mae'r cyfeiriad yn adran 26(2) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

mae i “darpariaethau’r isafbris” (“*minimum pricing provisions*”) yr ystyr a roddir gan adran 22(4) o Ddeddf 2018;

ystyr “Deddf 2018” (“*the 2018 Act*”) yw Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018.

### Parhau darpariaethau’r isafbris

**3.** Er gwaethaf is-adran (1) o adran 22 o Ddeddf 2018, nid yw darpariaethau’r isafbris yn cael eu diddymu yn rhinwedd yr is-adran honno ar ddiwedd y cyfnod a bennir ynddi.

*Enw*
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad